ADDEWID O FYWYD TEULUOL PERFFAITH

Nodyn i'r siaradwr:
Yn fuan, drwy gyfrwng y Deyrnas, bydd Jehofa yn gwireddu ei bwrpas o gael un teulu mawr dynol yn hapus a heb raniadau. Hyd yn oed nawr, mae teuluoedd sy'n cymhwyso egwyddorion y Beibl yn mwynhau heddwch a hapusrwydd. Cynigiwch atebion sy'n dealladwy i rai newydd. Hefyd, cryfhewch ffydd y rhai sydd yn Dystion Jehofa

MAE'R TEULU YN RHODD DDWYFOL (3 mun.)

Mynegodd Jehofa ei bwrpas o lenwi'r ddaear â theulu dynol perffaith **[Darllenwch Genesis 1:26-28]**

Dyma chi ddarlun rhyfeddol! (*w14*-E 1/15 8 par. 3-6)

Rhodd gan Dduw yw'r hapusrwydd sydd i'w gael o fewn y teulu (Ru 1:9; Sal 127:3)

SUT CAFODD HAPUSRWYDD TEULUOL EI CHWALU? (5 mun.)

Aeth hapusrwydd teuluol yn chwalfa oherwydd gwrthryfel Satan yn erbyn Duw

Dylanwadodd Satan ar Adda ac Efa a hefyd ar yr angylion drwg, a'u perswadio i gefnu ar Jehofa

Yn lle profi'r undod a'r hapusrwydd sydd yn ynghlwm wrth bwrpas Jehofa, mae'r teulu dynol i gyd wedi ei rannu yn gymdeithasol, yn grefyddol, ac yn wleidyddol

O fewn uned y teulu gwelwn y perthnasau arferol wedi eu llygru a'u datgymalu, hefyd strach a thristwch (2Ti 3:2, 3)

Mae Jehofa yn ben i deulu sydd ag aelodau yn y nef ac ar y ddaear, felly drwy ymadael â'r teulu hwnnw mae Adda ac Efa wedi peri loes fawr iddo Ef. Mae hefyd wedi dod â phoen, dioddef, a marwolaeth i'w disgynyddion (Ge 3:16-19; Pre 8:9; Rhu 5:12)

SUT BYDD HAPUSRWYDD TEULUOL YN CAEL EI ADFER? (5 mun.)

Nid oes perygl y byddai'n Tad nefol yn caniatáu i wrthryfelwyr anffyddlon dymchwel ei bwrpas tragwyddol o gael teulu dynol hapus

Mynegodd ein tad Jehofa ei gariad drwy broffwydoliaeth, un sydd yn cynnwys adferiad, yn ogystal â'i farnedigaeth yn erbyn y sarff, Satan **[Darllenwch Genesis 3:15]**

Drwy Iesu, prif elfen yr "had," bydd Duw yn dod â Satan i'w ddiwedd, ac yn dad-wneud effaith pechod Adda (In 3:16; 1In 3:8)

Drwy gyfrwng pridwerth aberthol Iesu, "yr Adda diwethaf," bydd pob un o ddisgynyddion ffyddlon "y dyn cyntaf, Adda" yn mwynhau bywyd teuluol perffaith yn dragwyddol (1Co 15:22, 45; Mth 20:28)

Pan fydd Iesu wedi traddodi popeth yn ôl i ddwylo ei Dad, yna bydd pwrpas Jehofa ar gyfer teuluoedd wedi ei gyflawni **[Darllenwch 1 Corinthiaid 15:24-28]**

SUT MEDRWCH CHI GAEL TEULU HAPUS NAWR? (14 mun.)

Mae Duw yn darparu cyfarwyddyd i deuluoedd, o'i gymhwyso hapusrwydd yw'r canlyniad (Dia 3:5, 6; 4:1-4; *fg* 18-19)

[Darllenwch Effesiaid 5:28-32] Mae Jehofa yn dymuno i wŷr a gwragedd fod yn deyrngar i'w gilydd ac iddyn nhw arddangos cariad anhunanol a pharch, y naill wrth y llall (Heb 13:4)

[**Darllenwch Effesiaid 5:22-25, 33]** Mae penteuluaeth Iesu ar y gynulleidfa yn sefyll fel patrwm i wŷr Cristnogol (1Pe 3:7)

Rhaid i wŷr ddangos cariad hunan-aberthol drwy ddarparu'n faterol ar gyfer eu teuluoedd, a chymryd y blaen yn ysbrydol (De 6:5-7; 1Ti 5:8)

[Darllenwch Effesiaid 6:1-3] Hapus yw'r plentyn sydd yn ufudd i'w rieni ac sydd wedi dysgu sut i gymhwyso egwyddorion y Beibl (Pre 11:9, 10; 12:1)

[Darllenwch Effesiaid 6:4] Bydd enghraifft y rhiant sydd yn amlygu ei gariad at Dduw yn effeithio yn ddwys ar ei blentyn

Er mwyn i blant ganfod hapusrwydd parhaol, rhaid iddyn nhw ddysgu sut i fodloni eu Tad nefol (2Ti 3:14, 15)

O'R DIWEDD, TEULU HAPUS BYD-EANG! (3 mun.)

Bydd addewid Duw o gael un teulu hapus ac unedig yn fyd-eang yn cael ei wireddu (Sal 37:10, 11)

A fuasech chi'n hoffi bod ymhlith y rhai hapus y mae **Salm 89:15, 16** yn eu disgrifio? **[Darllen]**

Os felly, rydyn ni'n eich annog, chi a'ch teulu, i ddal ati i afael ar wybodaeth gywir o'r hyn y mae Duw yn ei ddisgwyl gan y teulu (Mth 5:3; In 17:3)

Teyrnas Dduw yw'r cyfrwng i fendithio "holl dylwythau'r ddaear" fel y gallan nhw brofi addewidion Duw —tangnefedd a hapusrwydd tragwyddol (Act 3:25)

[Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School,* tt. 52-55, 166-169]

© 2014 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania